

PWYLLGOR Y FYNWENT – CYLCH GORCHWYL
Mabwysiadwyd 20.03.19

1. Mae cyfansoddiad Pwyllgor y Fynwent yn ei wneud yn gyfrifol am Fynwent Gymunedol Ynys Wen.
2. Bydd y Pwyllgor yn penderfynu ar y polisiau a'r gweithredoedd ar gyfer sicrhau arferion gweithio diogel wrth gynnal a chadw'r Fynwent.
3. Nid oes gan Bwyllgor y Fynwent rym i wneud penderfyniadau ond yn hytrach i gyflwyno argymhellion ar gyfer sêl bendith Cyngor Cymuned Y Fali.
4. Bydd y Pwyllgor yn adolygu Rhestr Ffioedd y Fynwent yn flynyddol.
5. Bydd y Pwyllgor yn adolygu Rheolau a Rheoliadau'r Fynwent yn rheolaidd.
6. Bydd y Pwyllgor yn cynnal Asesiadau Risg blynyddol ar y Fynwent a'u cyflwyno i'r cyfarfod llawn nesaf o'r Cyngor.
7. Fel bo'r angen bydd y Pwyllgor yn comisiynu, derbyn, ystyried a rhoi cynlluniau ar waith o ran y Fynwent gan gynnwys gwario arian, cyn belled â bod hyn wedi ei gymeradwyo gan y Cyngor Llawn ac oddi fewn i gyllideb y fynwent.
8. Bydd y Pwyllgor yn goruchwyllo rheolaeth ddyddiol y fynwent gan ymateb i unrhyw broblemau sy'n ymwneud â'r fynwent.
9. Cyfyngir y nifer o aelodau i bump Cynghorydd Cymuned sy'n gwasanaethu ar y pryd. Bydd Cadeirydd cyfredol y Cyngor Cymuned yn aelod awtomatig o'r Pwyllgor. Gall pob aelod presennol arall o'r Cyngor ofyn am gael eu hapwyntio ar y Pwyllgor.
10. Bydd angen cworwm o dri ar gyfer cynnal gwaith y Pwyllgor, a Chadeirydd y Pwyllgor fydd un ohonynt neu os na fydd yn gallu bod yn bresennol, person a enwebwyd ganddo ef/hi.
11. Cynhelir dau gyfarfod y flwyddyn ym mis Chwefror a mis Hydref ac fe estynir gwahoddiad i ymgymerwyr lleol.
12. Clerc y Cyngor fydd Ysgrifennydd y Pwyllgor. Bydd y Clerc yn cofnodi'r gweithrediadau a phenderfyniadau pob cyfarfod o'r Pwyllgor gan gynnwys cofnodi enwau pawb a oedd yn bresennol neu wrth law.
13. Bydd cofnodion cyfarfodydd o'r Pwyllgor yn cael eu dosbarthu yn amserol i bob aelod o'r Pwyllgor a chânt eu hystyried a'u cymeradwyo yn y cyfarfod llawn nesaf o'r Cyngor Cymuned
14. Cyfyngir y materion i'w trafod yn y cyfarfod i'r rhai sydd wedi eu cynnwys ar agenda'r cyfarfod. Dosberthir yr agenda ymlaen llaw i holl aelodau'r Pwyllgor trwy e-bost, gan roi tri diwrnod clir o rybudd a chan ddatgan lleoliad, amser a dyddiad y cyfarfod.
15. Yng Nghyfarfod Blynyddol Cyngor Cymuned y Fali bydd aelodaeth Pwyllgor y Fynwent yn cael ei adolygu trwy bleidlais ynghyd â'r Cylch Gorchwyl hwn.
16. Caiff Cadeirydd Pwyllgor y Fynwent ei apwyntio yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Cyngor a gynhelir ym mis Mai bob blwyddyn.